# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 30 Hydref 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadw cyllid myfyrwyr dan reolaeth awdurdodau lleol. (WAQ55034)

***Rhoddwyd ateb ar 29 Hydref 2009***

Mae cyllid myfyrwyr yn un o swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i gyflawnir drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru, sef partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr – gwasanaeth sy'n gweithredu yn y DU gyfan, sy'n eiddo i'r cyhoedd. Mae rhai agweddau ar y broses gwneud cais wedi'u dirprwyo i'r 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru ar hyn o bryd, tra gweinyddir elfennau eraill o'r system Cyllid Myfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd er mwyn adolygu opsiynau posibl ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth. Mae'n bwysig sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, yn enwedig pan fo cyllidebau llywodraeth leol a chenedlaethol o dan gymaint o bwysau ag y maent ar hyn o bryd.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru. (WAQ55935) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau.***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Chwefror 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Un o egwyddorion allweddol ein Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru, Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri, fu sicrhau "na fydd neb yn cael ei rwystro rhag chwarae rhan lawn mewn cymdeithas oherwydd diffyg sgiliau iaith sylfaenol yn y Gymraeg neu'r Saesneg".

Buom yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a darparwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru i roi cymorth i ddysgwyr ESOL drwy:

- gyflwyno rhaglenni blynyddoedd cynnar a theuluoedd ar gyfer rhieni a gofalwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith;
- rhaglenni cymorth dal i fyny mewn ysgolion ar gyfer plant nad ydynt yn gwneud cystal mewn darllen a mathemateg, gan gynnwys cymorth i'r plant hynny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt;
- rhaglenni dysgu ar gyfer pobl ifanc sy'n symud i'r sector ôl-16;
- hyfforddi athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm ESOL newydd ar gyfer oedolion sy'n seiliedig ar y safonau llythrennedd cenedlaethol a chymorth drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Ond rydym yn mynd gam ymhellach. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Estyn ei adroddiad: "Pa mor effeithiol yw’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion o ran caffael yr iaith Saesneg?" Mewn ymateb, rwyf wedi gofyn i Sgiliau Sylfaenol Cymru ystyried y canfyddiadau cyn cyhoeddi Strategaeth ESOL benodedig y flwyddyn nesaf, fel y gallwn ddiwallu anghenion ffoaduriaid ac eraill y mae angen iddynt gaffael sgiliau iaith Saesneg yn well. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn fuan.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid craidd ar gyfer dysgu gydol oes anffurfiol. (WAQ55036) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau.***

***Rhoddwyd ateb ar 09 Tachwedd 2009***

**John Griffiths**: Dysgu anffurfiol yw dysgu nas strwythurir o ran canlyniadau dysgu, cymorth nac amser. Gellir ei gynnal mewn ystod o leoliadau ôl-16, gan gynnwys sefydliadau addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion, dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau dysgu cymunedol.

Nid oes cyllideb ariannu graidd ar wahân ar gyfer dysgu anffurfiol; yn hytrach fe'i hariennir o dan yr un gyllideb sy'n ariannu'r holl ddarpariaeth ddysgu ôl-16 (ac eithrio addysg uwch). Ar gyfer 2010-11, rydym fwy na lai wedi cynnal y gyllideb ar gyfer darpariaeth ôl-16 ar lefel y gyllideb ar gyfer 2009-10.

Mae dysgu anffurfiol yn nodwedd allweddol o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi diogelu'r dyraniadau ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer awdurdodau lleol ac, yn 2009-10, cynyddodd yr arian ar gyfer awdurdodau lleol 3.4 y cant. Ar gyfer 2010-11, byddwn yn parhau i ddiogelu'r dyraniadau ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal lliniarol nad yw ar gyfer canser yn Abertawe. (WAQ55033)

***Rhoddwyd ateb ar 29 Hydref 2009***

Disgwyliaf i ofal lliniarol gael ei ddarparu i'r rheini yr asesir bod ei angen arnynt.